



office of the
independent
adjudicator

'for students in higher education'

Y fframwaith
arfer da:

*Rhoi cymorth i
fyfyrwyr anabl*



Hydref 2017



Cynnwys

Rhestr Astudiaethau Achos	3
Rhagarweiniad	4
Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud?	5
Dileu rhwystrau i ddysgu	8
Gweithdrefnau priodol	11
Asesu safonau cymhwysedd	12
Cyflyrau tymor byr	13
Proses Achos Eithriadol	15
Lwfansau Myfyrwyr Anabl (LMA)	15
Cyn y cyfnod sefydlu	17
Yn ystod y cyfnod sefydlu	18
Cael gafael ar gymorth	19
Polisiau a gweithdrefnau hyblyg	19
Darparu cymorth	19
Gwneud addasiadau rhesymol	20
Gweithdrefnau yn achos amgylchiadau lliniarol (esgusodol)	21
Pryderon am bresenoldeb	21
Cwynion ac apeliadau academiaidd	23
Hygyrchedd ac eglurder	23
Pan fo pethau'n mynd o chwith	23
Cymesuredd, prydlondeb a thegwch	24
Annibyniaeth a chyfrinachedd	26
Gwellu profiad myfyrwyr	26
Gweithdrefnau disgyblu	26
Seibiannau	28
Cymhwyster i ymarfer	28
Adnoddau defnyddiol a chyfeiriadau at ddogfennau mewn troednodyn	29

Rhestr Astudiaethau Achos

Astudiaeth Achos 1: A yw hyn yn gamwahaniaethu?	7
Astudiaeth Achos 2: Dysgu ac addysgu cynhwysol	9
Astudiaeth Achos 3: Arfer da - hyfforddiant priodol i staff	10
Astudiaeth Achos 4: Arfer da - gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr	10
Astudiaeth Achos 5: Arfer da - datgelu anabledd	11
Astudiaeth Achos 6: Arfer da - safon cymhwysedd	13
Astudiaeth Achos 7: Myfyriwr yn anfodlon â'r gefnogaeth a ddarperir gan LMA a'r darparydd	16
Astudiaeth Achos 8: Rhoi'r cwestiynau anabledd ar waith	20
Astudiaeth Achos 9: Arfer da - cyflwr ansefydlog	21
Astudiaeth Achos 10: Arfer da - gweithredu'r weithdrefn cymorth ar gyfer astudio lle mae pryderon am bresenoldeb	22
Astudiaeth Achos 11: Arfer da - cyflwyno gwaith yn hwyr	24
Astudiaeth Achos 12: Arfer da - hysbysiad hwyr	25
Astudiaeth Achos 13: Arfer da - gweithdrefnau disgyblaeth ac anabledd	27

Rhagarweiniad

- 1 Mae'r **Fframwaith Arfer Da: ymdrin â chwynion myfyrwyr ac apeliadau academaidd** yn gosod egwyddorion craidd ac arfer da gweithredol ar gyfer darparwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. Yr egwyddorion hynny yw: **hygyrchedd; eglurder; cymesuredd; prydlondeb; tegwch; annibyniaeth; cyfrinachedd; a gwella profiad myfyrwyr.**
- 2 Lle mae darparwyr yn rhoi cymorth i fyfyrwyr anabl, mae egwyddorion hygyrchedd, tegwch, cymesuredd a chyfrinachedd yn arbennig o bwysig. Dylai gweithdrefnau darparwyr fod yn hawdd eu deall a dylent roi gwybodaeth glir am sut i gael gfael ar gyngor a chymorth. Dylid rheoli gwybodaeth a ddarperir gan fyfyrwyr anabl mewn ffordd gyfrinachol a sensitif. Dylai darparwyr sicrhau bod aelodau staff sy'n gwneud penderfyniadau a fydd yn effeithio ar fyfyrwyr anabl yn cael eu hyfforddi'n briodol a bod rhesymau clir yn cael eu rhoi am benderfyniadau a wneir.
- 3 Mae'r adran hon o'r Fframwaith Arfer Da yn amlinellu canllawiau arfer da ychwanegol i ddarparwyr eu hystyried wrth roi cymorth i fyfyrwyr anabl. Mae'n cynnwys:
 - 3.1 Trosolwg o'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud ynglŷn â rhoi cymorth i fyfyrwyr anabl;
 - 3.2 Arweiniad ar sut y gall darparwyr ddileu rhwystrau i ddysgu ar gyfer myfyrwyr anabl;
 - 3.3 Gwybodaeth am gwynion yn ymwneud â'r Lwfans Myfyrwyr Anabl;
 - 3.4 Canllawiau ar gyfer rhoi cymorth i fyfyrwyr anabl cyn y cyfnod sefydlu, ar ôl eu sefydlu ac yn ystod eu hastudiaethau; ac
 - 3.5 Arweiniad ar beth i'w wneud pan aiff pethau o chwith, gan gynnwys rheoli materion sy'n gysylltiedig ag anabledd a all godi wrth ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd.

Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud?

4 Mae'r adran hon yn cynnwys trosolwg o'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud yngl n â rhoi cymorth i fyfyrwyr anabl. Mae canllawiau ar gyfraith cydraddoldeb ar gael yn y cyhoeddiadau canlynol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:¹

- Canllawiau Technegol Deddf Cydraddoldeb 2010 ar Addysg Bellach ac Uwch (canllawiau technegol Deddf Cydraddoldeb 2010)
- Yr hyn mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel myfyriwr mewn addysg bellach neu addysg uwch
- Beth mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwydd addysg - addysg bellach ac uwch.

5 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio'r canlynol fel "nodweddion gwarchoddedig": Oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd, a rhywioldeb.

6 Mae canllawiau technegol Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi:

"Mae gan berson anabledd os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol, sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd."

"Caiff unrhyw un sydd â HIV, cancr neu sglerosis ymledol ei drin yn awtomatig fel rhywun anabl o dan y Ddeddf."

"Os oes gan berson gyflwr cynyddol, bydd y Ddeddf yn berthnasol o'r eiliad y mae'r cyflwr yn arwain at amhariad sy'n cael rhywfaint o effaith ar y gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Hyd yn oed os nad yw'n effaith sylweddol, mae'n debygol y gallai'r nam gael effaith niweidiol sylweddol ar allu o'r fath yn y dyfodol."

"Nid oes angen i berson sefydlu achos â diagnosis meddygol am eu nam. Yr hyn sy'n bwysig ei ystyried yw effaith yr amhariad, nid yr achos."

"Mae effaith niweidiol sylweddol yn rhywbeth sy'n fwy nag effaith ddibwys nad oes iddi arwyddocâd. Mae'r gofyniad bod rhaid i effaith fod yn sylweddol yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyffredinol o anabledd fel cyfyngiad sy'n mynd y tu hwnt i'r gwahaniaethau arferol mewn gallu a allai fodoli ymysg pobl."

7 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys anabledd. Mae camwahaniaethu yn cynnwys:

7.1 gwahaniaethu uniongyrchol - trin myfyriwr anabl yn llai ffafriol na myfyrwyr eraill.

7.2 gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd - trin myfyriwr anabl yn anffafriol oherwydd rhywbeth sy'n codi yn sgil ei anabledd, oni bai bod y driniaeth yn ddull cymesur o gyflawni nod cyfreithlon.

1 Gweler Adnoddau Defnyddiol, isod, am ddolenni at yr holl ddogfennau y cyfeirir atynt yn yr adran hon o'r Fframwaith Arfer Da.

7.3 gwahaniaethu anuniongyrchol

- gweithredu "ddarpariaeth, maen prawf neu arfer" sy'n gosod y myfyriwr hwnnw dan anfantais benodol o'i gymharu â myfyrwyr sydd ddim yn anabl, ac ni all y darparydd ddangos ei bod yn ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon.

7.4 Methu â darparu addasiad rhesymol:

7.4.1 Lle mae darpariaeth, maen prawf neu arfer yn rhoi myfyriwr ag anabledd o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â myfyrwyr eraill, rhaid i ddarparwyr gymryd unrhyw gamau rhesymol i osgoi'r anfantais honno. Dyma enghreifftiau o ddarpariaeth, maen prawf neu arfer: "unrhyw bolisiâu, rheolau, arferion, trefniadau, meini prawf, amodau, rhagofynion, cymwysterau neu ddarpariaethau, boed ffurfiol neu anffurfiol."²

7.4.2 Lle mae rhan o'r adeiladwaith yn golygu bod myfyriwr ag anabledd dan anfantais sylweddol o'i gymharu â myfyrwyr eraill, rhaid i ddarparwyr gymryd unrhyw gamau rhesymol i osgoi'r anfantais honno. Dyma rai enghreifftiau o adeiladwaith:

- "unrhyw nodwedd sy'n perthyn i sut cafodd y lleoliad ei gynllunio neu ei adeiladu
- unrhyw nodwedd sy'n ymwneud â mynediad neu allanfa o adeilad

- unrhyw osodiadau, dodrefn, offer neu eiddo symudol arall yn yr adeilad, ac
- unrhyw elfen neu nodwedd arall sy'n perthyn i'r eiddo."³

7.4.3 Lle byddai myfyriwr anabl, heb y ddarpariaeth o'r "cymorth ategol", yn cael ei roi dan anfantais sylweddol o'i gymharu â myfyrwyr eraill, rhaid i ddarparwyr gymryd y camau hynny y mae'n rhesymol eu cymryd i ddarparu'r cymorth ategol. Mae enghreifftiau o gymorth ategol yn cynnwys:

- "darn o offer
- darparu cyfieithydd iaith arwyddion, siaradwr gwefusau neu gyfathrebwr byddar-ddall
- cymorth staff ychwanegol ar gyfer myfyrwyr anabl
- gwasanaeth cymryd nodiadau electronig neu â llaw
- dolen sain neu system ddarlledu is-goch
- fideoffonau
- larymau tân clyweledol
- darllenwyr ar gyfer pobl â nam ar eu golwg, a
- cymorth gydag arwain."⁴

8 Nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr wneud addasiadau rhesymol i ddarpariaeth, maen prawf neu arfer sy'n cael ei ddiffinio fel safon cymhwysedd. Fodd bynnag, rhaid i ddarparwyr ystyried a ellid gwneud addasiad rhesymol ai peidio i'r ffordd y caiff y safon ei gweithredu neu ei hasesu. Bydd darparydd yn gwahaniaethu'n

3 Canllawiau technegol Deddf Cydraddoldeb 2010

4 Canllawiau technegol Deddf Cydraddoldeb 2010

2 Canllawiau technegol Deddf Cydraddoldeb 2010

anghyfreithlon os nad yw'n gwneud addasiad rhesymol i weithrediad neu asesiad safon cymhwysedd er mwyn galluogi unigolyn anabl i ddangos eu bod wedi cyrraedd y safon.

- 9 Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn berthnasol i'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi "sylw teilwng" i'r angen am wneud y canlynol: dileu camwahaniaethu; hyrwyddo cydraddoldeb; a meithrin perthynas dda rhwng grwpiau a ddiffinnir drwy gyfeirio at "nodwedd warchoddedig".

ASTUDIAETH ACHOS 1: A yw hyn yn gamwahaniaethu?

Mae darparydd yn gwrthod lle i fyfyrwr anabl ar gwrs balé oherwydd ei fod wedi methu'r clyweliad am reswm sy'n gysylltiedig â'i nam corfforol.

- Nid yw hyn yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol, oherwydd ni fyddai unrhyw un a fethodd y clyweliad yn cael lle ar y cwrs.
- Gall y penderfyniad fod yn "driniaeth lai ffafriol am reswm sy'n gysylltiedig ag anabledd y myfyrwr". Fodd bynnag, gall y darparydd ei gyfiawnhau os yw'r un meini prawf yn berthnasol i bob ymgeisydd, ac os yw'r meini prawf yn ddull cymesur o ddangos gallu unigolyn i fodloni gofynion y cwrs. Os nad yw'r darparydd wedi ystyried a yw'r meini prawf yn gymesur â'r cwrs a'i bod yn ymddangos bod y meini prawf yn fwy llym na gofynion y cwrs, mae'n annhebygol y byddai'n gallu cyfiawnhau'r driniaeth lai ffafriol.
- Os yw'r darparydd wedi penderfynu ei bod yn safon cymhwysedd bod rhaid i fyfyrwyr allu cyflawni symudiadau penodol, a bod angen iddynt ddangos eu gallu i wneud y symudiadau hynny cyn eu derbyn, yna ni fyddai gofyn i'r darparydd wneud unrhyw addasiadau i'r gofyniad hwnnw.

Dileu rhwystrau i ddysgu

Arferion cynhwysol ac addasiadau rhesymol rhagflaenol

- 10** Yn ôl y model cymdeithasol o anabledd, caiff pobl â nam eu 'hanalluogi' gan y rhwystrau sy'n gweithredu mewn cymdeithas sy'n eu hallgau ac yn gwahaniaethu yn eu herbyn; nid yw camwahaniaethu, allgau a gormes yn ganlyniad anochel bod ag anabledd. Datblygwyd y model cymdeithasol o anabledd gan bobl anabl mewn gwrthwynebiad uniongyrchol i fodolau meddygol ac elusennol anabledd. Datblygwyd y model fel "her uniongyrchol i'r modelau anabledd cyfoes a oedd yn ystyried anabledd fel problem feddygol unigol, a bod angen ei hatal, ei gwella neu ei rheoli a / neu fel mater elusennol a oedd yn ystyried pobl anabl fel anffodusion, a bod angen teimlo trueni drostynt a darparu ar eu cyfer ar wahân i bobl eraill gan wasanaethau elusennol." Mae'r model cymdeithasol yn declyn defnyddiol ar gyfer deall anabledd a dynodi "rhwystrau sy'n analluogi pobl â nam a sut gellir cael gwared ar y rhwystrau hyn, neu o leiaf eu lleihau neu eu gwrthbwysu gan fathau eraill o gymorth."⁵
- 11** Mae gan ddarparwyr ddyletswydd ragflaenol i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr anabl, a dylent weithio gyda myfyrwyr anabl a mudiadau pobl anabl wrth ystyried y ffordd orau o ddileu rhwystrau i ddysgu. Mae Canllawiau LMA 2017/18 Cyllid Myfyrwyr Lloegr (Myfyrwyr Newydd) yn datgan:

"Dylai myfyrwyr anabl gyrraedd y brifysgol yn hyderus bod unrhyw rwystrau i'w dysgu wedi'u dynodi, eu deall a bod camau priodol wedi'u cymryd i leihau eu heffaith. Dylai'r amgylchedd dysgu fod mor gynhwysol â phosibl, fel mai eithriad yw'r angen am ymyriadau unigol yn hytrach na'r rheol. Dylai sefydliadau gymryd rhan mewn cylch gwella parhaus sy'n datblygu arfer cynhwysol, gyda'r nod o leihau nifer yr ymyriadau unigol sydd eu hangen."

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru (CMC) yn defnyddio dull tebyg.⁶

- 12** Mae'r canlynol yn enghreifftiau o rai o'r newidiadau syml sy'n debygol o helpu i greu amgylchedd dysgu mwy cynhwysol:
- Gwella hygyrchedd deunyddiau a gweithdrefnau dysgu
 - Gwneud deunyddiau addysgu sy'n hygyrch ar yr amgylchedd dysgu rhithwir
 - Caniatáu neu hwyluso recordio addysgu
 - Sicrhau bod rhestrau darllen yn canolbwyntio ar y testun, eu bod yn gyfredol, ac ar gael cyn i'r modiwlau ddechrau
 - Defnyddio iaith blaen a chyflwyniad clir mewn darlithoedd
 - Defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu.⁷

6 Canllawiau Cyllid Myfyrwyr Cymru ar LMA.

7 Wedi'i gyrchu o adroddiad Dysgu ac Addysgu Cynhwysol mewn Addysg Uwch fel llwybr at Ragoriaeth.

5 Ffeithlen Model Cymdeithasol o Anabledd - Inclusion London

13 Gall addasiadau rhesymol gynnwys bod ag:

- Adeiladau, ystafelloedd a chyfleusterau hygyrch
- Mapiau ac arwyddion ar gyfer adeiladau wedi'u lleoli mewn safleoedd amlwg ac mewn print trwm, clir
- Cyfle i fyfyrwyr â nam ar eu golwg gael eu tywys o amgylch y sefydliad cyn dechrau'r tymor.
- Gweithdrefnau a deunyddiau cwrs mewn fformat hygyrch sy'n gydnaws â thechnolegau cynorthwyol
- Rhaglenni mentora a chymorth gan gyfaill
- Dolenni clyw
- Mewnrwyd hygyrch
- Adnoddau addysgol fel cyflwyniadau darlithoedd, nodiadau a recordiadau ar gael i bob myfyriwr o fewn amser penodol, ac mewn fformat wedi'i addasu neu fformat y gall myfyrwyr ei addasu eu hunain
- Meddalwedd adnabod lleferydd ar gyfer darlithwyr fel y gall myfyrwyr ddarllen yn gydamserol a chael trawsgrifiad wedi'u lunio'n barod.

14 Mae'n bwysig nodi mai enghreifftiau yw'r rhain yn hytrach na rhestr gynhwysfawr. Bydd angen i ddarparwyr archwilio gyda'r myfyriwr unigol pa drefniadau a fydd yn eu galluogi i gael mynediad i'w hastudiaethau.

ASTUDIAETH ACHOS 2: Dysgu ac addysgu cynhwysol

Mae aelod o staff academiaidd yn cynllunio modiwl newydd ar gyfer rhaglen MBA i'w gymeradwyo ar gyfer y flwyddyn academiaidd sydd i ddod. Gofynnir i Arweinydd y Rhaglen adolygu'r modiwl er mwyn sicrhau bod y dulliau addysgu a'r asesiad yn cyd-fynd â deilliannau dysgu'r modiwl. Mae Arweinydd y Rhaglen yn ymwybodol o gyfrifoldeb y darparydd i ragweld anghenion myfyrwyr anabl ac felly mae'n sicrhau bod i'r modiwl amrywiaeth o ddulliau ffurfiannol a chrynodol amgen i fyfyrwyr ddangos eu bod wedi cyflawni deilliannau dysgu. Mae cynnwys y cwricwlwm ei hun yn aros yr un peth. Mae'r math hwn o wneud penderfyniadau rhagflaenol, lle mae cynwysoldeb yn rhan annatod o ddylunio'r rhaglenni, yn lleihau'r angen am addasiadau ar gyfer achosion unigol.

Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr

15 Dylai darparwyr sicrhau bod adnoddau digonol ar gyfer eu gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, a bod myfyrwyr yn cael gwybod am y gefnogaeth sydd ar gael. Dylid rhoi hyfforddiant priodol i staff ategol, staff addysgu a goruchwylwyr, gan ddibynnu ar anghenion dysgu staff a myfyrwyr, i'w helpu i ddeall anghenion myfyrwyr.

ASTUDIAETH ACHOS 3: **Arfer da - hyfforddiant priodol ar gyfer staff**

Mae darparwr yn trefnu i Benaethiaid Adran fynychu cwrs hyfforddi â'r nod o helpu'r rhai sy'n gweithio mewn addysg uwch i ddeall, rhoi cymorth a chyfathrebu'n effeithiol â myfyrwyr sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Mae'r cwrs hyfforddi yn helpu staff i ddatblygu strategaethau gweithio effeithiol, darparu adborth yn glir, a chreu amgylchedd dysgu cynhwysol. Wedyn mae'r Penaethiaid Adran yn gyfrifol am ledaenu'r wybodaeth a ddeilliodd o'r cwrs o fewn eu hadrannau.

ASTUDIAETH ACHOS 4: **Arfer da - gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr**

Mae darparwr yn cysylltu â'r holl ymgeiswyr y cynigiwyd lle iddynt ac sydd wedi datgan ar eu ffurflen gais eu bod yn anabl. Mae'r darparwr yn cynnig cyfarfod neu sgwrs dros y ffôn i drafod eu hanghenion gyda chynghorydd cymorth i fyfyrwyr cyn iddynt gofrestru. Mae'r darparwr yn esbonio i'r myfyrwyr ymlaen llaw yr hyn gaiff ei drafod, ac yn anfon dolen iddynt i wefan gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr. Mae tudalen Facebook undeb myfyrwyr y darparwr hefyd yn cynnwys dolen i wefan y gwasanaeth.

Datgeliad myfyrwyr

- 16** Dylid annog myfyrwyr i ddatgelu eu bod yn anabl cyn gynted â phosibl, fel y gall y darparwr gynllunio a chynnig cymorth priodol. Nid yw'n ddyletswydd gyfreithiol ar fyfyrwyr i ddatgelu. Bydd awyrgylch a diwylliant agored, croesawgar a chefnogol yn helpu myfyrwyr anabl i deimlo'n ddiogel

wrth ddatgelu gwybodaeth am y cymorth sydd ei angen arnynt.⁸ Dylai darparwr hefyd dynnu sylw'r myfyrwyr at y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr anabl a'r fantais o geisio'r cymorth hwnnw'n gynnar.

- 17** Rhaid i ddarparwr wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwr neu ddarparwr fyfyrwr (o ran trefniadau derbyn) pan fyddant yn gwybod, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fod yn gwybod, bod y myfyrwr yn anabl. Dylai darparwr sicrhau bod staff yn ymwybodol o beth i'w wneud os yw myfyrwr yn datgelu iddynt ei fod yn anabl. Unwaith y bydd myfyrwr wedi dweud wrth aelod o staff ei fod yn anabl, ni fydd y darparwr yn gallu honni nad oedd yn gwybod amdano oni bai bod y myfyrwr wedi dweud wrth yr aelod staff yn gyfrinachol, gan ofyn i'r aelod staff i beidio â rhannu ei ddatgeliad ag eraill. Os yw'r myfyrwr yn gofyn am gyfrinachedd llwyr, mae'n bwysig i'r aelod staff esbonio y gallai hyn gyfyngu ar faint o gymorth y gellir ei drefnu, a chynghori'r myfyrwr i gysylltu â gwasanaethau cymorth anabledd y darparwr am help a chynghor cyfrinachol. Byddai'n arfer da i'r aelod o staff wneud cofnod cyfrinachol o'r drafodaeth honno gyda'r myfyrwr. Dylai pob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad â myfyrwr gael hyfforddiant digonol i'w galluogi i sylwi pryd mae myfyrwr yn datgelu ei fod yn anabl, yn ogystal â mynediad at gyngor ynglŷn â beth i'w wneud yn yr amgylchiadau hynny.

⁸ Gweler, er enghraifft, ganllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol: 8. Cyfrinachedd a datgeliad.

ASTUDIAETH ACHOS 5: **Arfer da - datgelu** **anabledd**

Cafodd myfyriwr blwyddyn gyntaf Celfyddyd Gain ddiagnosis am anabledd dysgu penodol (ADP) pan oedd yn y chweched dosbarth. Mae'r myfyriwr yn penderfynu peidio â dweud wrth ei ddarparydd am ei ADP wrth gofrestru. Ar ôl derbyn adborth gwael ar aseiniadau ysgrifenedig mae'r myfyriwr yn sylweddoli bod angen help arno. Mae'n siarad â'i diwtor personol sy'n awgrymu bod y myfyriwr yn cysylltu â'r gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr. Mae'r myfyriwr yn dweud wrth y tiwtor ei fod am i'w ADP gael ei gadw'n gyfrinachol. Mae'r tiwtor yn esbonio y bydd yn parchu penderfyniad y myfyriwr, ond gallai hyn effeithio ar lefel y cymorth y gellir ei drefnu. Mae'r myfyriwr yn cytuno i gwrdd â'r gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr ac mae'r tiwtor yn ei helpu i drefnu apwyntiad. Mae gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr yn cynnig cefnogaeth a chynghor iddo, ac yn cytuno mai dim ond aelodau staff penodol fydd yn cael gwybod am ei ADP.

Gweithdrefnau priodol

- 18** Dylai darparwyr sicrhau bod eu gweithdrefnau cwyno ac apeliadau academaidd yn bodloni Disgwyliad pennod B9 **Cod Ansawdd yr ASA ar gyfer Addysg Uwch: Apeliadau academaidd a chwynion myfyrwyr** ac egwyddorion y Fframwaith Arfer Da: ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd.
- 19** Yn ogystal, mae'n arfer da i ddarparwyr weithredu'r canlynol:
- 19.1** 19.1 Gweithdrefnau y gellir eu dilyn os yw myfyriwr yn methu â chymryd rhan yn ei astudiaethau dros-dro ac yn dymuno cymryd amser i ffwrdd. Dylai'r gweithdrefnau hyn gynnwys canllawiau sy'n benodol ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr ar raglenni proffesiynol, a phroses ar gyfer galluogi'r myfyriwr i ddychwelyd i astudio.
- 19.2** Gweithdrefnau "cymorth i astudio" y gellir eu dilyn pan fo pryderon bod iechyd meddwl neu gorfforol myfyriwr yn effeithio'n sylweddol ar ei allu i gyfranogi'n llawn ac yn effeithiol yn ei astudiaethau academaidd, a'i fywyd yn gyffredinol yn y darparydd. Gellir hefyd dilyn y gweithdrefnau os oes pryder ynghylch effaith ymddygiad myfyriwr ar ei ddiogelwch eu hunain neu ddiogelwch eraill. Dylent gynnwys proses ar gyfer trefnu bod y myfyriwr yn dychwelyd i astudio, gan gynnwys asesu pa mor addas fyddai iddo ddychwelyd.
- 19.3** Polisiau a gweithdrefnau cymhwysedd i ymarfer, lle mae'r myfyriwr yn astudio cwrs sydd â gofynion proffesiynol.
- 19.4** Polisiau sy'n nodi hawliau myfyrwyr i gael eu trin ag urddas a pharch; disgwyliadau'r darparydd o ran safonau ymddygiad yn enwedig mewn achosion o aflonyddu, bwlio ac erledigaeth; a chanllawiau i fyfyrwyr ar sut i godi pryderon am y materion hyn.

- 20** Pan fydd darparwydd yn dechrau gweithdrefnau cymhwysedd i ymarfer neu gymorth i astudio, dylai sicrhau:
- 20.1** Bod y myfyriwr yn deall y broses sy'n cael ei dilyn, ac mai ei diben yw cynnig cefnogaeth;
 - 20.2** Gall y myfyriwr, ac unrhyw fyfyrwr eraill dan sylw, gael gafael ar gymorth priodol drwy'r broses, er enghraifft gan gynghorydd anabledd a/neu gynghorydd undeb y myfyrwr;⁹
 - 20.3** Ceir gafael ar dystiolaeth briodol a chymesur ynghylch iechyd meddwl neu gorfforol y myfyriwr;
 - 20.4** Caiff yr holl dystiolaeth sy'n dod i law ei thrin â sensitifrwydd ac yn gyfrinachol, ac ni chaiff ei datgelu ond i'r sawl sydd angen ei gweld er mwyn dod i benderfyniad ynglŷn â'r achos;
 - 20.5** Bod y penderfyniadau a wneir yn rhesymol a chymesur, a'u bod yn cael eu hesbonio'n glir i'r myfyriwr;
 - 20.6** Rhoddir gwybodaeth i'r myfyriwr am sut i apelio.

- 21** Mae'n arfer da ystyried a gweithredu unrhyw ganllawiau sy'n benodol ar gyfer pwnc neu gwrs a ddarperir gan gyrrff proffesiynol. Dyma rai enghreifftiau: canllawiau Cymdeithas y Gyfraith ar y gofynion cydraddoldeb ac amrywioldeb yn Llawlyfr yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, canllawiau Undeb Cenedlaethol yr Athrawon ar roi gymorth i athrawon anabl a chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar wneud addysg feddygol yn fwy hygyrch: Gateways to the Profession.

Asesu safonau cymhwysedd

- 22** Nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr wneud addasiadau rhesymol i ddarpariaeth, maen prawf neu arfer sy'n cael ei ddiffinio fel safon cymhwysedd. Mae'n arfer da i ddarparwyr ddynodi beth yw'r safonau cymhwysedd ar gyfer pob cwrs ac asesiad, pam eu bod nhw'n safonau cymhwysedd, cofnodi'r wybodaeth honno, a'i rhannu â myfyrwyr. Dylid sicrhau bod gwybodaeth am safonau cymhwysedd, asesu ac addasiadau rhesymol ar gael i fyfyrwyr, fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus wrth wneud cais am gyswrt.¹⁰

⁹ "Mae'n arfer da sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael gafael ar gymorth a chynngor a, lle nad yw'n ymarferol gwneud hynny yn fewnol, dylai darparwyr ystyried gwneud trefniadau i alluogi myfyrwyr i gael mynediad at wasanaethau cymorth mewn sefydliadau cyfagos, darparwyr partner neu wasanaethau eraill yn y gymuned leol." Y Fframwaith Arfer Da: ymdrin â chwynion ac apeladau academaidd.

¹⁰ Uned Her Cydraddoldeb: Canllawiau ar safonau cymhwysedd ac addasiadau rhesymol.

23 Mae adran 7.34 o ganllawiau technegol Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi:

“... ystyrir gofyniad neu amod i fod yn safon cymhwysedd dim ond os mai ei bwrpas yw dangos lefel benodol o gymhwysedd neu allu perthnasol, e.e. ei bod yn ofynnol bod gan berson lefel benodol o wybodaeth berthnasol am bwnc.”

Mae gofyn i fyfyrwyr ddangos lefel arbennig o wybodaeth mewn pwnc penodol yn safon cymhwysedd. Fodd bynnag,

“ni fydd amod y gall person, er enghraifft, wneud rhywbeth o fewn cyfnod penodol o amser yn safon cymhwysedd oni fydd yn dangos lefel benodol o gymhwysedd neu allu.”¹¹

24 Pan fydd darparwydd yn penderfynu bod angen ffurf benodol o asesu (er enghraifft, arholiad wedi'i amseru; arholiad gyda deunydd na welwyd ymlaen llaw; cyflwyniad llafar; arddangosiad ymarferol o sgil penodol) i brofi safon cymhwysedd, dylai gofnodi ei resymau.

Cyflyrau tymor byr

25 Dylai darparwyr drin myfyrwyr sydd â chyflyrau tymor byr, fel anaf sy'n eu hanalluogi neu salwch difrifol, yn deg. Dylai fod yn hawdd cyfeirio myfyrwyr at weithdrefnau amgylchiadau lliniarol (esgusodol) a dylent fod wedi'u hysgrifennu'n glir. Dylai darparwyr fod yn effro i'r ffaith y gallai myfyrwyr sy'n gwneud cais am amgylchiadau lliniarol (esgusodol) dro ar ôl tro fod â chyflwr hirdymor.

RHESTR WIRIO: A yw'n safon cymhwysedd?

A yw'r darparwydd wedi:

- Dynodi pwrpas penodol y safon gan ystyried sut mae'r safon yn cyflawni'r diben hwnnw?
- Ystyried effaith bosibl y safon ar bobl anabl ac, os gallai'r safon gael effaith niweidiol, wedi gofyn a yw'r safon yn angenrheidiol?
- Adolygu pwrpas ac effaith pob safon cymhwysedd yng ngoleuni amgylchiadau cyfnewidiol, er enghraifft, datblygiadau technolegol?
- Ystyried y posibilrwydd y gellid cyflawni diben y safon mewn ffordd arall nad yw'n cael effaith niweidiol ar fyfyrwyr anabl, a
- Dogfennu ei drafodaethau a'i gasgliadau parthed y materion uchod?

Lle mae gofyniad yn safon cymhwysedd gwirioneddol - a yw'r darparwydd wedi:

- Ystyried y gwahaniaeth rhwng y safon cymhwysedd a'r dull o asesu?
- Cynllunio'r asesiad mewn ffordd gynhwysol?
- Rhagweld addasiadau rhesymol priodol i'r asesiad?
- Sicrhau bod gwybodaeth am yr addasiadau rhesymol hyn yn hysbys i staff a myfyrwyr, fel eu bod yn cael eu cynnwys yn arferion gwaith bob-dydd myfyrwyr?

¹¹ Canllawiau technegol Deddf Cydraddoldeb 2010.

ASTUDIAETH ACHOS 6: Arfer da - safon cymhwysedd

1: Mae darparrydd yn penderfynu mai safon cymhwysedd ar gyfer cwrs yw'r gallu i atgynhyrchu a defnyddio gwybodaeth o dan amodau wedi'u hamseru heb fynediad at ddeunyddiau cyfeirio. Mae gan fyfyrwr anabledd dysgu penodol. Mae'r darparrydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r myfyrwr sefyll arholiad wedi'i amseru dan amodau penodol, ond mae'n gwneud addasiadau i'r trefniadau ar gyfer yr arholiad gan gynnwys: amser ychwanegol; ystafell ar wahân; papurau arholiad ar bapur lliw; a defnyddio cyfrifiadur (i gofnodi ei atebion yn unig). Mae hyn yn sicrhau bod yr asesiad yn dal i brofi gallu'r myfyrwr i atgynhyrchu a defnyddio gwybodaeth yn briodol, ond mae'n lleihau'r anfantais i'r myfyrwr.

2: Mae myfyrwr sy'n defnyddio cadair olwyn yn astudio ar gwrs radiograffeg. Mae rhai wardiau yn anodd eu cyrraedd oherwydd eu bod i fyny'r grisiau. Fodd bynnag, nid yw gallu mynd i fyny ac i lawr grisiau yn un o safonau hyfedredd radiograffwyr: nid yw'n gymhwysedd. Ni fyddai methu â defnyddio grisiau yn ei hatal rhag bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer mynediad i'r proffesiwn radiograffeg. Mae'r darparrydd yn gwneud addasiadau rhesymol i'r amgylchedd astudio a gweithio fel y gall gael mynediad at gleifion.¹²

3: Mae myfyrwr â nam ar ei golwg sy'n astudio cwrs sydd angen darllen cefndir helaeth yn ei chael yn anodd cael gafael ar ddeunyddiau cyfeirio angenrheidiol. Caiff myfyrwyr nad ydynt yn cyfeirio at ystod eang o ddeunyddiau yn eu hasesiadau eu marcio'n is: mae'r gallu i ddarllen, cymathu a defnyddio ymchwil yn safon cymhwysedd. Er mwyn helpu'r myfyrwr i gwblhau ei hasesiadau, mae'r darparrydd yn:

- Rhoi rhestrau darllen i'r myfyrwr ymlaen llaw er mwyn rhoi amser iddi archebu deunydd mewn fformat hygyrch drwy'r gwasanaeth llyfrgell;
- Canfod catalog archebu ar-lein hygyrch;
- Rhoi cymorth llyfrgell ar waith i gynorthwyo'r myfyrwr i ddod o hyd i lyfrau ac erthyglau a'u cyrchu;
- Gofyn i ddarlithwyr gyfarwyddo'r myfyrwr, lle bo'n briodol, at benodau ac erthyglau mewn cyfnodolion sy'n arbennig o berthnasol.

Gyda'r cymorth hwn ar waith mae'r myfyrwr yn gallu cael gafael ar y deunyddiau angenrheidiol heb gyfaddawdu o ran y safon cymhwysedd.¹³

12 Addaswyd o ganllaw Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal: Iechyd, anabledd a dod yn weithiwr iechyd a gofal proffesiynol.

13 Mae'r astudiaeth achos hon yn tynnu ar yr astudiaeth "Trawsnewidiad i fod yn oedolyn" a gyhoeddwyd gan Brifysgol Birmingham.

Lwfansau Myfyrwyr Anabl (LMA)

26 Mae Cyllid Myfyrwyr Lloegr (CMLL) a Chyllid Myfyrwyr Cymru (CMC) wedi cyhoeddi canllawiau i fyfyrwyr sy'n gwneud cais am LMA. Mae'r canllawiau'n egluro bod LMA ar gael i fyfyrwyr anabl i gynorthwyo â'r costau ychwanegol y mae'n ofynnol iddynt eu hwynebu wrth astudio oherwydd eu bod yn anabl. Rhaid i'r costau ychwanegol hyn fod yn hanfodol er mwyn galluogi'r myfyriwr i ymgymryd â'i gwrs yn effeithiol. Ni fwriedir LMA i gynorthwyo â chymorth y byddai'r myfyriwr ei angen hyd yn oed os nad oedd yn astudio, neu i dalu costau astudio a allai fod gan unrhyw fyfyrwr p'un ai yw'n anabl ai peidio. Dylai darparwyr ragweld ac ymateb i anghenion eu myfyrwyr anabl lle mae'n rhesymol gwneud hynny.

27 Mae Canllawiau LMA 2017/18 Cyllid Myfyrwyr Lloegr (Myfyrwyr Newydd) yn dweud:

“Dylai cyllido drwy LMA fod ar frig strwythur cefnogaeth, wedi'i ategu gan amgylchedd cynhwysol, ac addasiadau rhesymol unigol lle bo angen.”

28 Mae aseswyr anghenion LMA yn ystyried yr effaith y mae anabledd y myfyriwr yn ei chael ar ei allu i astudio. Mae canllawiau CMLL a CMC yn nodi mai rôl asesydd anghenion LMA yw ystyried y rhwystrau y mae angen mynd i'r afael â nhw a gosod allan y strategaethau sy'n angenrheidiol i oresgyn y rhwystrau hynny. Mae'r asesydd anghenion yn nodi pa fath o gymorth sy'n hanfodol i alluogi'r myfyriwr i ymgymryd â'i gwrs dewisol, yn ogystal â gwneud argymhellion ar gyfer cymorth a ariennir drwy LMA. Mae'r asesydd hefyd yn nodi unrhyw angen am gymorth a ddynodwyd y tu allan i gwmpas cyllido LMA.

Dylai darparydd benderfynu pa gymorth sydd ei angen, gan roi ystyriaeth i'r adroddiad ar asesiad anghenion, a sut dylid ei gyflwyno, gan ystyried anghenion unigol y myfyriwr.¹⁴ Unwaith y bydd yr uchafswm ar gyfer LMA wedi'i gyrraedd, mae'n bosibl y bydd angen i'r darparydd ystyried a fyddai'n rhesymol darparu arian ychwanegol fel y gall cymorth i fyfyrwr anabl barhau i fod ar gael.

Proses ar gyfer Achosion Eithriadol

29 Os nad yw darparydd a myfyriwr yn cytuno ynglŷn â'r cymorth y mae'r darparydd wedi'i drefnu, gall y myfyriwr gwyno i'r darparydd am y penderfyniad. Mae'n bosibl y bydd gan y darparydd weithdrefn arbennig ar gyfer ymdrin â chwynion o'r fath, neu gall gyfeirio'r myfyriwr at ei weithdrefnau cwynion myfyrwyr. Mae'n bwysig sicrhau yr ymdrinnir â chwynion o'r fath yn brydlon fel nad yw'r myfyriwr yn cael ei osod dan anfantais oherwydd oedi yn y ddarpariaeth o gymorth. Os nad yw'r myfyriwr yn fodlon â chanlyniad gweithdrefn gwynion y darparydd, gall gyflwyno cwyn i SDA.

30 Lle nad yw'r myfyriwr a'r darparydd yn cytuno, gall y Broses ar gyfer Achosion Eithriadol ystyried a ddylai'r cymorth ychwanegol gael ei ariannu drwy LMA. Mae'n bosibl y bydd LMA dros-dro ar gael tra'n disgwyl canlyniad y gŵyn ac unrhyw ystyriaeth gan SDA os yw'r myfyriwr yn gymwys i dderbyn LMA.

¹⁴ Gweler tudalen 10 o Ganllawiau LMA 2017/18 CMLL (Myfyrwyr Newydd) a thudalen 23 o ganllawiau LMA 2017/18 CMC.

ASTUDIAETH ACHOS 7: Myfyriwr yn anfodlon â'r gefnogaeth a ddarperir gan LMA a'r darparydd

Mae myfyriwr anabl yn cael asesiad o'i hanghenion. Mae'r asesydd anghenion yn dynodi strategaethau a fydd yn gweithio i'r myfyriwr er mwyn darparu cymorth sy'n hanfodol er mwyn iddi allu cael mynediad i'w chwrs. Mae rhywfaint o'r cymorth yn gymwys ar gyfer cyllido LMA ac mae aseswyr CMLL yn cytuno i'w ariannu. Nid yw anghenion cymorth ychwanegol yn gymwys ar gyfer LMA ac mae'r myfyriwr yn gofyn i'r darparydd ateb ei hanghenion yn y meysydd hynny.

Mae'r darparydd yn penderfynu peidio â chynnig y cymorth ychwanegol. Mae'r myfyriwr yn cwyno i'r darparydd am ei benderfyniad. Cyfeirir yr anghydfod at y Broses ar gyfer Achosion Eithriadol CMLL. Mae'r Tîm Achosion Eithriadol yn ystyried y mater ac yn penderfynu darparu cymorth dros dro tra bod y darparydd yn ystyried cwyno y myfyriwr.¹⁵ Mae'r darparydd yn cwblhau ei adolygiad o gŵyn y myfyriwr yn brydlon ac yn cytuno i gynnal y cymorth ychwanegol a amlinellwyd yn yr asesiad o anghenion.

15 Gweler CMLL a CMC am ragor o wybodaeth am y mathau o anghydfod ynghylch LMA a fyddai'n cael eu hystyried gan y Tîm Achosion Eithriadol.

Cyn y cyfnod sefydlu

- 31** Dylai darparwyr wneud popeth y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ei wneud i ganfod a yw myfyriwr yn anabl. Wrth wneud ymholiadau am anabled, dylai darparwyr gymryd gofal i barchu urddas y myfyriwr a thrin eu gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol, gan ystyried eu cyfrifoldebau parthed data personol sensitif.
- 32** Dylai darparwyr sicrhau bod gwybodaeth glir ar gael am gynnwys cyrsiau a dulliau addysgu ac asesu. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth glir am safonau cymhwysedd, ac unrhyw leoliadau gwaith, teithiau maes, ymweliadau sy'n gysylltiedig â'r cwrs a.y.b. er mwyn galluogi'r myfyriwr i wneud penderfyniad gwybodus am addasrwydd y cwrs, yn ogystal ag agweddau o'r cwrs lle maent yn debygol o fod angen addasiadau.¹⁶ Mae'n arfer da cyhoeddi gwybodaeth am y math o gymorth y mae'r darparwydd yn ei gynnig i fyfyrwyr â gwahanol fathau o anabledau.
- 33** Dylai darparwyr ymateb i unrhyw wybodaeth y mae myfyriwr wedi'i rhoi iddynt am anabled neu eu hanghenion cymorth. Dylai darparwyr drafod yr anghenion hyn gyda'r myfyriwr, a lle bo angen gyda staff academaidd sydd â gwybodaeth am y cwrs, a chytuno ar yr hyn sy'n rhesymol i'r darparwydd ei wneud o dan yr amgylchiadau. Dylid cyfeirio myfyriwr at ffynonellau cyllido a chymorth eraill lle bo'n briodol. Mae'n bwysig sicrhau bod y myfyriwr wedi cael asesiad priodol o'i anghenion.
- 34** Mae'n arfer da i ddarparwyr gynnig tywys y myfyriwr o amgylch y campws a'r cyfleusterau cyn i'r tymor ddechrau. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn achos myfyrwyr ag anghenion symudedd a allai effeithio ar eu gallu i deithio'n annibynnol o amgylch y campws, e.e. myfyrwyr â nam ar eu golwg.

¹⁶ Darperir canllawiau gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i Ddarparwyr Addysg Uwch ynghylch eu cyfrifoldebau dan gyfraith defnyddwyr o ran gwybodaeth am gyrsiau

Yn ystod y cyfnod sefydlu

- 35** Dylai darparwyr roi addasiadau y cytunwyd arnynt ar waith yn brydlon. Os oes angen asesiad ychwanegol, yna dylai darparwydd roi addasiadau dros-dro ar waith tra bo'r asesiad yn cael ei gynnal.
- 36** Mae'n arfer da esbonio pam nad yw unrhyw addasiadau a argymhellir yn cael eu gweithredu, neu eu bod yn cael eu darparu drwy ddulliau amgen, a pham yr ystyrir bod hyn yn rhesymol. Os yw darparwydd yn gwrthod addasiad a argymhellir oherwydd ei fod yn ymwneud â safon cymhwysedd a nodwyd, dylai esbonio'r rhesymeg am hynny i'r myfyriwr.
- 37** Os oes oedi wrth weithredu trefniadau cymorth y cytunwyd arnynt, neu wrth ddarparu offer ar gyfer myfyriwr, yna dylai'r darparwydd gymryd pa bynnag gamau y gall eu cymryd i leihau unrhyw anfantais i'r myfyriwr o ganlyniad i'r oedi hwnnw. Er enghraifft, gallai'r darparwydd fenthyg offer i'r myfyriwr, neu gynnig cymorth tiwtorial ychwanegol. Os yw'r myfyriwr yn gofyn am estyniad i derfyn amser ar gyfer rhan o'r cwrs o ganlyniad i oedi o'r fath, dylid ystyried unrhyw effaith ganlyniadol estyniad o'r fath ar lwyth gwaith cyffredinol y myfyriwr.
- 38** Dylai darparwyr sicrhau bod gwybodaeth gynnar yn cael ei darparu am:
- 38.1** Yr hyn a ddisgwylir gan fyfyrwyr - fel aelodau o gorff y myfyriwr yn gyffredinol ac o ran eu cwrs, ysgol, neu adran benodol.
- 38.2** Ble i fynd am gymorth a chyngor.
- 39** Dylai darparwyr greu amgylchedd diogel i annog myfyriwr nad ydynt wedi datgan eu bod yn anabl i ddatgelu hyn ar unrhyw adeg.
- 40** Mae'n bwysig sicrhau bod tiwtoriaid personol, ac aelodau staff eraill sy'n ymwneud â gweithdrefnau amgylchiadau lliniarol (esgusodol), yn effro i'r myfyriwr hynny y gallai eu hamgylchiadau fod yn arwydd o anabledd cudd nad ydynt wedi'i ddatgelu.

Darparu cymorth

Cael gafael ar gymorth

- 41** Mae'n arfer da hysbysebu gwybodaeth sy'n cyfeirio myfyrrwyr at wefan y gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, ond mae'n bosibl na fydd hynny'n ddigonol. Mae'n arfer da cadw llygad ar fyfyrwyr unigol i sicrhau eu bod yn cael gafael ar y cymorth sydd ar gael, a'u bod yn elwa ohono.
- 42** Dylai darparwyr hefyd helpu eu myfyrrwyr i ddatblygu sgiliau hunan-eiriolaeth, er enghraifft drwy eu cyfeirio at wasanaethau a sefydliadau pobl anabl yn yr ardal leol, fel bod ganddynt yr hyder i wybod pryd a sut i ofyn am gymorth, a'u bod yn gallu mynegi eu hanghenion a'u pryderon.
- 43** Mae gwybodaeth am iechyd corfforol neu feddyliol myfyriwr yn "ddata personol sensitif" a rhaid ei storio a'i ddefnyddio yn unol â gofynion deddfwriaeth Diogelu Data.¹⁷ Mae'n arfer da cytuno â'r myfyriwr pa wybodaeth (os o gwbl) am ei anabledd y dylid ei rhannu a gyda phwy. Dylid gwneud addasiadau rhesymol yn unol â chais myfyriwr am gyfrinachedd. Os yw'r myfyriwr yn gofyn am gadw unrhyw ddatgeliad o anabledd yn gyfrinachol, er enghraifft rhag staff academiaidd, dylid egluro i'r myfyriwr mai canlyniad tebygol hyn yw y gallai fod angen darparu addasiadau rhesymol mewn ffordd amgen, bod addasiad llai effeithiol yn cael ei ddarparu, neu ei bod yn amhosibl cynnig cymorth priodol wedi'i deilwra'n benodol ar ei gyfer.

- 44** Efallai y bydd angen i ddarparwyr rannu gwybodaeth am anabledd myfyriwr gyda'r sawl sydd yng ngofal lleoliad gwaith er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau o ran darparu profiad dysgu o ansawdd da gydol y cyfnod yn y gweithle, ond ni ddylent wneud hynny heb gydsyniad y myfyriwr. Mae'n arfer da i gytuno â'r myfyriwr pa wybodaeth sydd i gael ei rhannu â darparwyr lleoliadau gwaith, ac i roi cynllun cymorth ar waith ar gyfer cyfnodau yn y gweithle hwnnw. Dylai darparwyr drafod trefniadau ymarferol ar gyfer y lleoliad gwaith gyda'r myfyriwr ymlaen llaw fel y gellir dynodi rhwystrau posibl a gwneud addasiadau effeithiol. Mae'n arfer da i'r darparwydd fonitro'r lleoliad gwaith er mwyn sicrhau bod y cynllun cymorth y cytunwyd arno'n cael ei weithredu, fel bod y myfyriwr yn gallu cymryd rhan lawn yn y lleoliad gwaith hwnnw. Mewn rhai achosion, gall fod pryderon iechyd a diogelwch neu ddiogelu parthed y cyfnod a dreulir yn y gweithle, sy'n golygu bod angen gofyn i'r myfyriwr gytuno i ddatgelu ei fod yn anabl cyn y gellir dechrau ar y lleoliad gwaith.

Polisiau a gweithdrefnau hyblyg

- 45** Dylai darparwyr fod yn hyblyg wrth weithredu polisiau a gweithdrefnau ac, wrth wneud hynny, dylent ofyn y cwestiynau canlynol iddynt eu hunain:
- 45.1** A yw'r myfyriwr yn anabl?
- 45.2** Os felly, pa ddarpariaethau (er enghraifft, polisiau a gweithdrefnau) ydym ni nawr yn eu gweithredu ar ei gyfer ef neu hi?
- 45.3** A yw'r darpariaethau hyn yn rhoi'r myfyriwr dan anfantais?

¹⁷ Gweler canllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth.

- 45.4** Beth ellid ei wneud i atal yr anfantais honno?
- 45.5** A fyddai'n rhesymol i ni gymryd y camau hynny?

ASTUDIAETH ACHOS 8: Rhoi'r cwestiynau anabledd ar waith

Mae Pennaeth Adran (PA) myfyriwr yn ysgrifennu at y myfyriwr i ddweud ei fod mewn perygl o gael ei dynnu oddi ar ei gwrs oherwydd lefel presenoldeb wael. Mae'r myfyriwr yn dweud wrth y PA ei fod wedi cael diagnosis am iselder yn ddiweddar, ac mae'n darparu tystiolaeth feddygol gan ei feddyg. Mae'r PA yn ystyried a yw gofynion presenoldeb y darparydd yn rhoi'r myfyriwr o dan anfantais o ganlyniad i'w gyflwr iechyd meddwl. Mae'n penderfynu eu bod yn gwneud hynny, ar ôl edrych ar dystiolaeth feddygol y myfyriwr. Mae'r PA yn penderfynu y byddai'n rhesymol addasu'r gofynion arferol. Mae'n cyfeirio'r myfyriwr at wasanaethau cymorth i fyfyrwyr fel y gellir rhoi cynllun cymorth ar waith ar ei gyfer.

Gwneud addasiadau rhesymol

- 46** Dylai darparwyr geisio gwneud dyluniad a chyflwyniad eu deunyddiau addysgu mor gynhwysol â phosibl. Os caiff cyrsiau a rhaglenni eu cynllunio a'u cyflwyno mewn ymgynghoriad â myfyrwyr anabl a sefydliadau pobl anabl, yna mae'n bosibl na fydd angen i ddarparwyr wneud cymaint o addasiadau rhesymol unigol ar gyfer y myfyrwyr hynny.
- 47** Dylai darparwyr gadw meddwl agored ynghylch pa addasiadau y gellir eu gwneud ar gyfer myfyriwr, a dylent drafod addasiadau posibl gyda'r unigolyn. Dylid gwneud addasiadau rhesymol ar sail pob

achos unigol. Dylai darparwyr gadw cofnod o unrhyw addasiadau rhesymol, gan gynnwys barn neu gyngor pwy gafwyd, a'r rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed.

- 48** Mae'n arfer da cadw addasiadau dan adolygiad ac i annog myfyriwr i roi gwybod i chi am unrhyw broblemau neu ddiffyg cymorth, neu newid yn eu cyflwr, ac i weithredu ar y wybodaeth honno. Fodd bynnag, nid yw'n arfer da mynnu bod y myfyriwr yn ailymgeisio am yr un addasiadau bob blwyddyn oni bai bod ei gyflwr yn debygol o amrywio.
- 49** Dylai darparwyr gytuno gyda'r myfyrwyr beth yw'r ffordd orau i gyfathrebu trefniadau cymorth y cytunwyd arnynt i'r staff addysgu a'r staff ategol perthnasol, er mwyn sicrhau bod y trefniadau hynny'n cael eu rhoi ar waith.
- 50** Os yw dulliau addysgu yn newid (er enghraifft, mae'r cwrs yn newid o asesiadau modiwlaid ac arholiadau i brosiect blwyddyn olaf), mae'n arfer da trafod y newid gyda myfyrwyr ac i'r darparydd adolygu'r trefniadau sydd ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn briodol.
- 51** Dylai darparwyr ystyried sut i sicrhau bod teithiau maes ac ymweliadau eraill sy'n gysylltiedig â chwrs yn hygyrch i'r holl fyfyrwyr. Dylid gwneud ymdrech resymol i alluogi myfyrwyr i fynd ar deithiau o'r fath lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylai'r darparydd ystyried dulliau amgen o gyflawni'r deilliannau dysgu. Er enghraifft, efallai y gall y myfyriwr ymgymryd ag agweddau penodol o waith maes mewn amgylchedd rhithwir a grëwyd gyda samplau a ffotograffau.
- 52** Dylai darparwyr fod yn effro i unrhyw faterion sy'n codi o fewn y garfan - er enghraifft, problemau gyda gwaith grŵp, honiadau o fwlio - a sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi ar waith ar gyfer yr holl fyfyrwyr dan sylw.

Gweithdrefnau yn achos amgylchiadau lliniarol (esgusodol)

- 53** Dylai addasiadau sicrhau bod myfyrwyr anabl yn cael eu hasesu dan amodau cyfartal â'u cyfoedion, fel na ddylai fod angen i'r unigolyn ofyn am amgylchiadau lliniarol (esgusodol). Serch hynny, mae'n bosibl y bydd angen i fyfyrwr anabl wneud hawliad o'r fath os, er enghraifft:
- 53.1** Mae ei gyflwr yn gwaethygu, sy'n golygu nad yw'r addasiadau rhesymol sydd ar waith bellach yn ddigonol.
- 53.2** Roedd diffyg neu fethiant yn y trefniadau cymorth, neu bod trefniadau heb gael eu gweithredu mewn pryd.
- 54** Efallai y bydd angen hyblygrwydd ychwanegol pan fydd cyflwr y myfyrwr yn amrywio. Er enghraifft, efallai na fydd yn rhesymol disgwyl i'r myfyrwr gyflwyno tystiolaeth feddygol bob tro y mae'n dymuno gwneud cais am amgylchiadau lliniarol (esgusodol).

ASTUDIAETH ACHOS 9: **Arfer da - cyflwr sy'n amrywio**

Mae gan fyfyrwr Arthritis Gwynegol. Mae'n aml yn dioddef pyliau difrifol, sy'n eithriadol o boenus ac yn para am ddau neu dri diwrnod. Yn ystod y pyliau hyn, nid yw'n gallu ysgrifennu na theipio. Mae'r darparwydd yn cytuno y gall gael estyniadau i derfynau amser ar gyfer cyflwyno gwaith chwrs pan fydd pyliau o'r fath yn effeithio ar ei gallu i weithio. Mae'n addasu ei brosesau amgylchiadau lliniarol arferol fel nad yw'n ofynnol iddi gyflwyno tystiolaeth feddygol o'i chyflwr bob tro y mae angen estyniad arni.

- 55** Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen amser ychwanegol ar fyfyrwr i gwblhau gwaith a asesir, a bydd hyn yn rhan o'r addasiadau y cytunwyd arnynt. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion ni ddylai fod angen ymestyn y terfynau amser yn rheolaidd ar gyfer myfyrwyr sydd â chymorth priodol wedi'i drefnu ar eu cyfer. Efallai y bydd angen estyniad ar y myfyrwyr hynny o hyd, lle mae tystiolaeth bod y cymorth sydd ar gael yn ddiffygiol, neu fod eu cyflwr yn gwaethygu, sy'n golygu nad yw'r addasiadau sydd ar waith bellach yn ddigonol. O dan yr amgylchiadau hynny, dylid ystyried unrhyw effeithiau canlyniadol y gallai estyniad o'r fath eu cael ar lwyth gwaith cyffredinol y myfyrwr.
- 56** Dylai darparwyr fod yn effro i unrhyw bryderon ynghylch addasrwydd i astudio neu addasrwydd i ymarfer a dylent weithio gyda'r myfyrwr i geisio goresgyn y pryderon hynny. Dim ond fel yr opsiwn olaf y dylid dilyn gweithrediadau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl neu gorfforol myfyrwr.
- 57** Dylai darparwyr sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu trin yn deg ac yn gyson â myfyrwyr ar gyrsiau eraill ac mewn adrannau eraill, oni bai bod rhesymau y gellir eu cyfiawnhau (a'u hesbonio) dros eu trin yn wahanol.

Pryderon am bresenoldeb

- 58** Mae'n arfer da i ddarparwyr fod â pholisi presenoldeb ar waith sy'n nodi eu disgwyliadau o fyfyrwyr. Mae polisi o'r fath yn helpu'r darparwydd i fonitro ymgysylltiad myfyrwr, ac i nodi unrhyw bryderon yn gynnar. Dylai'r polisi fod yn ddigon hyblyg i roi ystyriaeth i'r myfyrwyr hynny yr effeithir ar eu lefel presenoldeb yn sgil eu cyflwr. Dylai darparwyr ystyried a yw lefel presenoldeb benodol yn safon cymhwysedd. Os oes gan fyfyrwr lefelau presenoldeb gwael ac nad yw trefniadau cymorth yn gwella hyn, efallai y bydd yn briodol defnyddio'r weithdrefn cymorth i astudio.

ASTUDIAETH ACHOS 10: **Arfer da - defnyddio'r** **weithdrefn ar gyfer** **cymorth i astudio lle** **mae pryderon ynghylch** **lefelau presenoldeb**

Mae Arweinydd y Cwrs ar gyfer cwrs iaith fodern yn sylwi bod presenoldeb myfyriwr wedi disgyn yn is na'r gyfradd bresenoldeb gyffredinol o 75%. Mae Arweinydd y Cwrs yn cysylltu â thiwtor personol y myfyriwr ac yn gofyn i'r tiwtor drefnu cyfarfod gyda'r myfyriwr. Mae'r tiwtor personol yn cyfarfod â'r myfyriwr ac yn trafod lefel bresenoldeb wael y myfyriwr. Mae'r myfyriwr yn egluro ei fod wedi bod yn sâl ond ei fod yn gwneud ei orau i fynychu darlithoedd pwysig. Mae'r tiwtor yn helpu'r myfyriwr i wneud apwyntiad gyda'r gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr. Nid yw'r myfyriwr yn mynychu'r apwyntiad gyda'r gwasanaeth cymorth ac nid yw'n ymateb i negeseuon e-bost gan y gwasanaeth, na'r tiwtor personol. Mae ei lefelau presenoldeb yn dirywio'n gyflym.

Mae Arweinydd y Rhaglen yn gofyn i'r myfyriwr fynychu cyfarfod anffurfiol o dan y broses cymorth i astudio er mwyn trafod pryderon am ei addasrwydd i astudio. Mae aelod o'r gwasanaeth cymorth yn mynychu'r cyfarfod gyda'r myfyriwr a chytunir ar gynllun cymorth i'r myfyriwr er mwyn gwella ei bresenoldeb a rhoi cyfle iddo ddal i fyny â'r gwaith y mae wedi'i golli. Mae'r myfyriwr yn gwneud apwyntiadau gyda'i feddyg teulu a chyda gwasanaeth cwnsela'r darparydd. Mae'n cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'i diwtor personol i adolygu ei gynnydd.

Pan fydd pethau'n mynd o chwith

Cwynion ac apeliadau academaidd

59 Mae egwyddorion cyffredinol y Fframwaith Arfer Da: ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd yn berthnasol i bob myfyriwr p'un a ydynt yn anabl ai peidio. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at rai materion sydd o bwysigrwydd arbennig yn y cyd-destun hwn.

Hygyrchedd ac eglurder

60 Dylai darparwyr ysgrifennu eu rheoliadau a'u gweithdrefnau yn glir ac mewn iaith syml a'u gwneud yn hygyrch i fyfyrwyr. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fyfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu penodol a nam ar eu golwg.

61 Dylai myfyrwyr fod yn gallu cael gafael ar wasanaethau cymorth i'w helpu i gael mynediad at brosesau a sicrhau eu bod yn eu deall. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ar fyfyriwr anabl i gwblhau'r ffurflen gwyno neu'r ffurflen apêl academaidd. Dylid darparu ffurflenni ar ffurf copi caled sy'n cydymffurfio â safonau print clir ac mewn fformatau electronig sy'n gydnaws â thechnolegau cynorthwyol a ddefnyddir yn gyffredin, fel darllenwyr sgrîn.¹⁸

62 Dylai darparwyr sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir yn cael eu hesbonio'n glir ac mewn fformatau hygyrch, gan ystyried unrhyw argymhellion perthnasol yn asesiad anghenion y myfyriwr.

63 Dylai gweithdrefnau ganiatáu i fyfyrwyr benodi cynrychiolydd. Fel arfer, cynghorydd undeb y myfyrwyr fydd yn y sefyllfa orau i roi cymorth i'r myfyriwr oherwydd y bydd yn gyfarwydd â phrosesau'r darparwydd.¹⁹ Fodd bynnag, efallai y bydd angen cymorth allanol ychwanegol ar rai myfyrwyr anabl. Dylai prosesau fod yn hyblyg i ganiatáu hyn lle mae angen gwirioneddol. Dylid caniatáu i'r cynrychiolydd siarad ar ran y myfyriwr os byddai'r myfyriwr fel arall o dan anfantais.

64 Mewn rhai achosion gall fod yn rhesymol gwneud addasiadau i brosesau cwynion neu apeliadau academaidd arferol y darparwydd er mwyn dileu unrhyw anfantais i'r myfyriwr. Er enghraifft, gallai fod yn rhesymol addasu terfynau amser. Mae'n rhesymol disgwyl i fyfyrwyr gymryd cyfrifoldeb am eu profiad dysgu eu hunain ac i gael mynediad at brosesau'r darparwydd, e.e. amgylchiadau lliniarol (esgusodol), apeliadau academaidd a gweithdrefnau cwynion, o fewn yr amserlenni penodedig. Serch hynny, gall rhai anabledau, er enghraifft rhai cyflyrau iechyd meddwl, amharu ar allu myfyriwr i ymwneud â phrosesau neu weithio o fewn terfynau amser. Dylai darparwyr ystyried yr effaith debygol y gall nam ei chael ar fyfyriwr, ac unrhyw gyflwr sy'n gwaethygu, a dangos rhywfaint o hyblygrwydd yn ei

18 Canllawiau Cymdeithas Fformatau Hygyrch y DU ar greu dogfennau clir ac mewn print bras.

19 "Mae'n arfer da ei gwneud yn bosibl i fyfyrwyr gael mynediad at gymorth a chynghor a, lle nad yw'n ymarferol gwneud hynny yn fewnol, dylai darparwyr ystyried gwneud trefniadau i alluogi myfyrwyr i gael gafael ar wasanaethau cymorth mewn sefydliadau cyfagos, darparwyr partner neu wasanaethau eraill yn y gymuned leol." Y Fframwaith Arfer Da: ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd.

brosesau lle mae tystiolaeth bod amhariad ar allu'r myfyriwr i ymgysylltu'n briodol â phrosesau'r darparparydd ar yr amser penodedig. Mae'n arfer da i gofnodi achosion lle derbynnir cyflwyniadau hwyr, a'r rhesymau dros wrthod cyflwyno'n hwyr.

ASTUDIAETH ACHOS 11:

Arfer da - cyflwyniad hwyr

Mae gan fyfyrwr anawsterau iechyd meddwl ac mae'n derbyn cymorth gan gynghorydd iechyd meddwl y darparparydd. Mae'n cyflwyno apêl i'r darparparydd ar ôl iddi fethu â sefyll arholiad oherwydd ei hanawsterau iechyd meddwl parhaus. Cyflwynwyd ei hapêl yn hwyr ac mae'n dweud bod hyn oherwydd ei bod yn ei chael hi'n anodd gweithredu o fewn terfynau amser oherwydd ei hiechyd meddwl. Mae hyn yn cael ei ategu gan y cynghorydd iechyd meddwl Mae'r darparparydd yn ystyried a yw ei weithdrefnau ar gyfer apeliadau yn gosod y myfyriwr o dan anfantais o ganlyniad i'w hanabledd, ac a fyddai'n rhesymol addasu'r gweithdrefnau hynny, er enghraifft drwy ymestyn y terfyn amser, er mwyn cael gwared ar yr anfantais honno. Mae'r darparparydd yn cytuno i ystyried yr apêl.

Cymesuredd, prydlondeb a thegwch

- 65** Mae cam datrys cynnar gweithdrefnau cwyno darparparydd yn rhoi cyfle i'r darparparydd ddatrys pryderon syml yn gyflym, heb osod bai ar unrhyw un. Er enghraifft, mae myfyriwr sy'n cwyno nad yw'r gefnogaeth y cytunwyd arni ar gael, yn fwy awyddus i gael y cymorth wedi'i weithredu nag ydyw i gael gwybod pwy oedd ar fai bod y gefnogaeth wedi'i gohirio.
- 66** Gall cyfryngu fod yn o ddefnyddiol wrth

ddatrys anghydfod rhwng myfyrwyr, neu rhwng aelodau staff a myfyriwr anabl, er enghraifft, lle mae'r gŵyn yn deillio o ddiffyg dealltwriaeth, neu ganfyddiad o ddiffyg dealltwriaeth, ynglŷn â phryderon y myfyriwr. Gall gwasanaethau cymorth myfyrwyr y darparparydd chwarae rhan bwysig yn y broses hon.

- 67** Gall fod rhesymau penodol dros hwyluso'r weithdrefn gwynion neu apeliadau academaidd, er enghraifft, oherwydd bod y myfyriwr yn dioddef o bryder difrifol.
- 68** Os nad yw myfyriwr anabl wedi bod yn derbyn y cymorth sydd ei angen arno, dylai'r darparparydd ystyried sut y gallai hyn fod wedi effeithio ar gynnydd academaidd y myfyriwr, p'un a oedd y darparwr ar fai ai peidio. Gall fod yn rhesymol caniatáu ymgais bellach i ganiatáu i'r myfyriwr ddangos ei allu academaidd.
- 69** Weithiau nid yw myfyrwyr yn dweud wrth y darparparydd ei fod yn anabl tan ar ôl ei asesiad neu ei arholiad. Yn yr achosion hynny, bydd angen i'r darparparydd ystyried pa gamau i'w cymryd. Os daw'r wybodaeth i'r golwg yn ystod apêl y myfyriwr, yna bydd angen i'r darparparydd ystyried a yw ei weithdrefnau apelio neu ei reoliadau dilyniant yn gosod y myfyriwr o dan anfantais sylweddol o ganlyniad i'w anabledd. Os ydynt, bydd angen i'r darparparydd benderfynu beth y dylai wneud yn rhesymol yn ystod y cam hwnnw i gael gwared ar yr anfantais honno.
- 70** Os daw'r wybodaeth i'r amlwg ar ôl i'r myfyriwr gael ei dynnu oddi ar y cwrs, dylai'r darparparydd, serch hynny, ystyried a fyddai'n rhesymol ailystyried achos y myfyriwr. Wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw, dylai'r darparparydd ystyried a ellid yn rhesymol disgwyl i'r myfyriwr wybod am ei nam ynghynt; a pha mor fuan ar ôl yr asesiadau yr effeithiwyd arnynt, yr hysbysodd y myfyriwr y darparparydd.

ASTUDIAETH ACHOS 12: **Arfer da - cyflwyno hwyr**

1. Mae myfyriwr yn methu ei harholiadau diwedd blwyddyn ac yn cael ei thynnu oddi ar y cwrs yn dilyn apêl aflwyddiannus. Wyth mis yn ddiweddarach mae hi'n ymweld â Seicolegydd Addysgol sy'n dweud wrthi fod ganddi lefel ysgafn o ddyslecsia. Mae hi'n anfon copi o'i hadroddiad gan y Seicolegydd Addysgol at y darparydd naw mis ar ôl gorffen ei hapêl academaidd.

Mae'r darparydd yn ystyried a ddylai ailagor apêl academaidd y myfyriwr. Mae'n nodi bod tiwtor personol y myfyriwr wedi awgrymu i'r myfyriwr y dylai fynd at y gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr a gofyn am brawf dyslecsia ar ôl iddo farcio un o'i hasesiadau. Ni aeth y myfyriwr am brawf.

Mae'r darparydd yn penderfynu peidio ag ailagor apêl academaidd y myfyriwr ac yn ysgrifennu ati i egluro bod hyn oherwydd y byddai'n rhesymol iddi fod wedi darganfod ei nam ynghynt, a bod y wybodaeth wedi dod i'r amlwg yn rhy hir ar ôl yr asesiadau.

2. Mae myfyriwr yn methu dau o'i arholiadau diwedd blwyddyn ac mae ei farciau mewn arholiadau eraill yn sylweddol is na'r disgwyl.

Mae'n cael ei dynnu oddi ar ei gwrs. Nid yw'n cyflwyno apêl ac mae'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno un yn mynd heibio. Mae ei ffrindiau wedi bod yn bryderus iawn amdano ers rhai wythnosau ac yn mynnu ei fod yn mynd at ei feddyg teulu. Mae'n ymweld â'i feddyg teulu bythefnos yn ddiweddarach ac mae hi'n rhoi diagnosis o iselder.

Gyda chefnogaeth ymgynghorydd undeb y myfyrwyr, mae'r myfyriwr yn cyflwyno apêl academaidd ar ôl y dyddiad cau ac yn gofyn i gyflwr ei iechyd meddwl gael ystyriaeth. Mae'n cyflwyno llythyr gan ei feddyg teulu yn dweud bod iselder y myfyriwr yn golygu nad oedd yn gallu gwneud penderfyniadau rhesymegol am ei iechyd ei hun, ac na fyddai wedi gallu ymwneud â phrosesau apêl y darparydd.

Mae'r darparydd yn cytuno i ystyried apêl academaidd y myfyriwr oherwydd bod y dystiolaeth feddygol wedi'i chyflwyno'n fuan ar ôl yr arholiadau ac yn dweud nad oedd yn gallu ymwneud â'r gweithdrefnau apelio ar yr amser priodol. Ar ôl ystyried apêl y myfyriwr, mae'r darparydd yn rhoi cyfle i'r myfyriwr ailsefyll y ddau arholiad a fethwyd ganddo. Mae'n cynnig hepgor ei reoliad sy'n atal myfyrwyr rhag ailsefyll arholiadau maen nhw wedi'u pasio fel y gall y myfyriwr ailsefyll yr arholiadau y mae wedi tanberfformio ynddynt. Mae gwasanaethau cymorth myfyrwyr y darparydd yn rhoi cynllun cymorth ar waith ar gyfer y myfyriwr.

Annibyniaeth a chyfrinachedd

- 71** Gall myfyrwyr ag anawsterau iechyd cymhleth ddod i gysylltiad â mwy o aelodau staff na myfyrwyr eraill. Gall fod yn anodd canfod aelod o staff sy'n ddigon pell o unrhyw broses gynharach i ymchwilio i gŵyn neu ystyried apêl academaidd. Efallai y bydd yn bosibl gofyn i aelod staff o adran arall o'r darparwydd i ymgymryd â'r rôl hon. Lle nad oes modd gwneud hyn, mae'n bosibl y bydd y darparwydd yn gallu ymgynghori â'r myfyriwr er mwyn dewis rhywun y gallant ymddiried ynddo.
- 72** Os bydd myfyriwr yn cwyno am y gwasanaethau cymorth, dylai'r darparwydd gyfeirio'r myfyriwr at ffynonellau cymorth eraill.
- 73** Mae'n arfer da sicrhau bod gwybodaeth sensitif yn cael ei chadw'n gyfrinachol cyn belled ag y bo modd gwneud hynny, a'i bod ond yn cael ei rhannu gyda'r rhai sydd angen ei gweld.

Gwella profiad myfyrwyr

- 74** Mae'n arfer da i ddarparwyr ddysgu o gwynion ac apeliadau academaidd, a sicrhau eu bod yn rhannu'r wybodaeth hon â staff addysgu, ymchwil ac ategol gan weithio ar y cyd â myfyrwyr a chyrrff cynrychioli myfyrwyr i wella eu prosesau. Dylai darparwyr ystyried a oes angen darparu hyfforddiant staff penodol yn dilyn cwyn, er enghraifft i sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth gadarn o anghenion dysgu myfyriwr sydd â nam penodol.

Gweithdrefnau disgyblu

- 75** Gall myfyriwr ymddwyn mewn ffordd sy'n gallu tarfu ar fyfyrwyr eraill a staff neu eu tramgwyddo oherwydd ei anabledd. Dylid cymryd gofal wrth egluro i'r myfyriwr pam mae'r ymddygiad yn achosi aflonyddwch neu dramgwydd. Gall system gyfeillio neu fentora fod yn ddefnyddiol ond dylai

natur y cymorth a gynigir gael ei deilwra i'r unigolyn a'r amgylchiadau penodol. Mewn rhai achosion gall defnyddio math o gyfryngu neu gymodi rhwng y myfyriwr a'r rhai yr effeithir arnynt gan yr ymddygiad fod o gymorth.

- 76** Mewn achosion eithafol, os yw ymddygiad myfyriwr yn achosi pryder sylweddol, gall darparwydd ystyried a ddylai weithredu ei broses cymorth i astudio. Gall hyn fod yn ddewis amgen i gamau disgyblu os yw ymddygiad y myfyriwr yn tarfu ar brofiad dysgu myfyrwyr eraill, neu fod angen amddiffyn staff neu fyfyrwyr.
- 77** Gall myfyriwr anabl dorri cod ymddygiad myfyrwyr am resymau nad ydynt mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â'i anabledd. Mewn achosion o'r fath gall y darparwydd gymryd camau disgyblu yn yr un modd ag y byddai yn achos unrhyw fyfyrwr arall. Fodd bynnag, dylai'r darparwydd ystyried a oes angen gwneud addasiadau rhesymol i'w weithdrefnau disgyblu arferol, a beth fyddai'r ffordd orau o gynnig cymorth i'r myfyriwr yn ystod y broses.

ASTUDIAETH ACHOS 13: **Arfer da - gweithdrefnau** **disgyblaeth ac anabled**

1. Mae myfyriwr blwyddyn gyntaf (S) sydd ar y sbectrwm awtistiaeth, yn cychwyn cwrs cynhyrchu ffilm. Yn un o'i ddarlithoedd mae S yn cwrdd â myfyrwraig ac maen nhw'n dod yn ffrindiau. Yn ddiweddarach yn y semester mae S yn dechrau ymweld â hi yn ei lleoliad gwaith pan fydd amser rhydd ganddo. Mae hi'n gofyn i S roi'r gorau i ddod i'w gweithle ond mae'n parhau i wneud hynny ac yn ceisio cerdded adref gyda hi.

Mae ymddygiad S yn dychryn y fyfyrwraig ac mae'n gwneud cwyn i'w darparydd yn dweud bod S yn aflonyddu arni. Mae'r darparydd yn penderfynu ymdrin â'r mater disgyblu yn anffurfiol. Mae'r darparydd yn gofyn i fentor S gwrdd ag ef. Mae'r mentor yn esbonio i S bod ei ymddygiad yn gwneud i'r fyfyrwraig deimlo'n anghyfforddus. Mae S yn cytuno i beidio ag ymweld â'i gweithle ac yn egluro nad oedd yn sylweddoli sut roedd hi'n teimlo. Ar awgrym y darparydd, mae S yn ysgrifennu at y fyfyrwraig yn ymddiheuro am ei dychryn, ac yn egluro sut mae anhwylder sbectrwm awtistiaeth yn effeithio ar y ffordd y mae'n rhyngweithio â phobl eraill.

2. Roedd myfyrwraig drama yn byw gydag effeithiau anaf trawmatig i'r ymennydd a oedd yn amharu ar ei sgiliau meddwl a'i hymddygiad cymdeithasol, yn ogystal â'i gallu i reoli ei hemosiynau.

Cwynodd myfyrwyr eraill fod y fyfyrwraig yn aml yn colli ei thymor ac yn gweiddi arnyn nhw, weithiau'n defnyddio iaith sarhaus, ac weithiau'n mynegi ystum corfforol ymosodol yn ystod gweithdai drama.

Trefnodd arweinydd y cwrs gyfarfod â'r fyfyrwraig i drafod y pryderon, ond nid oedd yn gallu amgyffred ei hanawsterau a gwrthododd gydnabod pryderon y myfyrwyr eraill. Gwrthododd fynd i gyfarfod o dan broses cymorth i astudio'r darparydd neu fynychu sesiwn iechyd galwedigaethol. Dechreuodd y darparydd achos disgyblu yn erbyn y myfyriwr gan argymhell y dylai fynd at undeb y myfyrwyr am gefnogaeth a chyngor.

Llwyddodd cynghorydd undeb y myfyrwyr i ddarbwylllo'r fyfyrwraig i ymweld â'i harbenigwr anaf i'r ymennydd. Yn dilyn cwnsela arbenigol, llwyddodd y fyfyrwraig i gael gwell dealltwriaeth o'i chyflwr. Mynychodd gyfarfod disgyblu a chafodd gyfle i egluro achos ei hymddygiad. Cytunodd i weithio gyda gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, arweinydd y cwrs a'i thiwtor i ddatblygu gwell strategaethau ymdopi ar gyfer rheoli ei dicter. Trefnwyd cefnogaeth gan gyfoedion i'w helpu mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, a datblygwyd system o arwyddion fel y gallai eraill rybuddio'r fyfyrwraig pan oedd hi'n dechrau colli ei thymor.

78 Mae'n bosibl i fyfyrwr anabl dorri rheolau camymddygiad academiaidd darparwydd am resymau nad ydynt yn gysylltiedig â'u hanabledd. Pan gynhelir achos camymddygiad academiaidd, mae'n bwysig i'r darparwydd wneud addasiadau rhesymol i'r gweithdrefnau. Er enghraifft, dylai'r darparwydd ystyried a ddylid gwneud addasiadau i unrhyw asesiad llafar sy'n ymwneud ag awduriaeth darn o waith, ac i gyfweiliadau panel. Dylai'r darparwydd hefyd ystyried y ffordd orau o gynnig cymorth i'r myfyrwr drwy'r broses.

Seibiannau

79 Os na all myfyrwr anabl fodloni gofynion y cwrs, gydag addasiadau rhesymol ar waith, dylid ystyried caniatáu seibiant ar sail iechyd (lle mae iechyd yn debygol o wella). Os bydd y myfyrwr yn gwrthod cymryd seibiant, mae'n bosibl y bydd angen atal ei astudiaethau. Dylai'r darparwydd gytuno gyda'r myfyrwr ar hyd y seibiant neu hysbysu'r myfyrwr am ba hyd mae ei addysg yn cael ei hatal. Yn y naill achos a'r llall, dylai'r darparwydd esbonio'r broses ar gyfer dychwelyd i astudio, ac unrhyw amodau a allai fod yn berthnasol (er enghraifft, asesiad iechyd galwedigaethol).

80 Mewn achosion lle na all y myfyrwr ddychwelyd at ei astudiaethau ar yr amser y cytunwyd arno, dylai'r darparwydd ystyried a fyddai'n rhesymol ymestyn y seibiant neu'r cyfnod atal, ac am ba hyd. Dylai'r darparwydd dynnu sylw'r myfyrwr at unrhyw derfynau amser ar gyfer cwblhau'r cwrs, er enghraifft, terfynau a osodir gan gyrff proffesiynol, ac a oes modd ymestyn y terfynau amser hynny. Os na all y myfyrwr ddychwelyd, dylai'r darparwydd ysgrifennu ato yn ffurfiol gan derfynu ei astudiaethau'n ffurfiol.

Addasrwydd i ymarfer

81 Gall pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer godi oherwydd iechyd meddwl neu

gorfforol myfyrwr, ei ymddygiad neu ei allu i gyflawni gofynion o ran cymhwysedd. Mae'n bosibl na fydd y pryderon hynny'n gysylltiedig ag anabledd y myfyrwr. Dylid dogfennu a thrafod unrhyw bryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer yn ofalus gyda'r myfyrwr. Dylid cychwyn prosesau addasrwydd i ymarfer ffurfiol os yw popeth arall yn methu.

82 Os yw pryderon addasrwydd i ymarfer yn deillio o ddigwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau, a bod anghydfod ynghylch yr hyn a ddigwyddodd, dylid rhoi cyfle teg i'r myfyrwr ymateb i'r cyhuddiadau (er enghraifft, mewn gwrandawriad disgyblu). Mae angen i'r darparwydd ddod i gasgliad teg ynglŷn â beth yn union ddigwyddodd cyn iddo ystyried materion addasrwydd i ymarfer.

Cwblhau gweithdrefnau

83 Ar ddiwedd unrhyw apêl academiaidd, cwyn neu weithdrefn addasrwydd i ymarfer cymorth i astudio neu ddisgyblaeth, dylai'r darparwydd ysgrifennu at y myfyrwr yn esbonio ei benderfyniad. Os yw'r canlyniad yn anffafriol i'r myfyrwr, dylid ei gyfathrebu i'r myfyrwr yn ysgrifenedig drwy gyhoeddi llythyr Cwblhau Gweithdrefnau cyn gynted â phosibl ac o fewn 28 diwrnod. Dylai hwn gynnwys esboniad clir o'r rhesymau dros y penderfyniad mewn iaith syml. Bydd hyn o gymorth i'r myfyrwr benderfynu a yw'n bwriadu mynd â'r mater ymhellach.

84 Os yw'r canlyniad yn ffafriol i'r myfyrwr, dylai'r darparwydd ysgrifennu at y myfyrwr yn esbonio'r canlyniad, gan egluro sut a phryd y bydd yn gweithredu unrhyw ddatrysiad. Mae'n arfer da cyhoeddi llythyr Cwblhau Gweithdrefnau os yw'r myfyrwr yn gofyn am un.²⁰

20 Canllawiau ar gyfer Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau.

Adnoddau defnyddiol a chyfeiriadau at ddogfennau mewn troednodyn

Astudiaeth "Transition to adulthood" Prifysgol Birmingham, a gyhoeddwyd yn 2015:

<http://www.vision2020uk.org.uk/university-birmingham-transition-adulthood-final-summary-report-project-longitudinal-study-transitions-experiences-blind-partially-sighted-young-people-phase-2/>

Cyngor ar gyfraith defnyddwyr addysg uwch ar gyfer darparwyr gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

<https://www.gov.uk/government/publications/higher-education-consumer-law-advice-for-providers>

Uned Her Cydraddoldeb: Canllawiau ar gyfer safonau cymhwysedd ac addasiadau rhesymol.

<http://www.ecu.ac.uk/guidance-resources/student-recruitment-retention-attainment/student-retention/inclusive-learning-teaching/competence-standards-reasonable-adjustments/>

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:

Canllawiau Technegol Deddf Cydraddoldeb 2010 ar Addysg Bellach ac Uwch:

<https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/equality-act-2010-technical-guidance-further-and-higher-education>

Beth mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparydd addysg - addysg bellach ac addysg uwch:

<https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/what-equality-law-means-you-education-provider-%E2%80%93-further-and-higher-education>

Cyngor Meddygol Cyffredinol: Canllawiau ar iechyd ac anabledd mewn addysg a hyfforddiant:

<http://www.gmc-uk.org/education/12680.asp>

http://www.gmc-uk.org/education/undergraduate/8_confidentiality_and_disclosure.asp

http://www.gmc-uk.org/education/undergraduate/gateways_guidance.asp

HCPC: Iechyd, anabledd a dod yn weithiwr proffesiynol ym maes iechyd a gofal:

<http://www.hcpc-uk.org/assets/>

[dogfennau/10004D79Healthdisabilityandbecomingahealthandcareprofessional.pdf](http://www.hcpc-uk.org/assets/10004D79Healthdisabilityandbecomingahealthandcareprofessional.pdf)

Dysgu ac Addysgu Cynhwysol mewn Addysg Uwch fel llwybr at Ragoriaeth: adroddiad gan Grŵp Arweinyddiaeth y Sector Myfyrwyr Anabl:

<https://www.gov.uk/government/publications/inclusive-teaching-and-learning-in-higher-education>

Taflen ffeithiau Inclusion London:

<https://www.inclusionlondon.org.uk/disability-in-london/social-model/the-social-model-of-disability-and-the-cultural-model-of-deafness/>

Comisiynydd Gwybodaeth:

<https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/>

Cymdeithas y Gyfraith: Gofynion Cydraddoldeb ac Amrywioldeb Llawlyfr SRA:

<http://www.lawsociety.org.uk/support-services/advice/practice-notes/equality-and-diversity-requirements--sra-handbook/>

Undeb Cenedlaethol y Athrawon: Athrawon anabl:

<https://www.teachers.org.uk/equality/disabled-teachers>

Canllawiau SDA ar gyfer Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau:

<http://www.oiahe.org.uk/media/100365/oia-guidance-note-may-2016.pdf>

Fframwaith Arfer Da SDA: ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd:

<http://www.oiahe.org.uk/providers-and-good-practice/good-practice-framework.aspx>

Cod Ansawdd ASA, Pennod B9, Apeliadau academaidd a chwynion myfyrwyr:

<http://www.qaa.ac.uk/publications/information-and-guidance/uk-quality-code-for-higher-education-chapter-b9-academic-appeals-and-student-complaints#.WiiWiVOLSUK>

Cylch gorchwyl: Model cymdeithasol o anabledd:

<http://www.scope.org.uk/about-us/our-brand/social-model-of-disability>

Canllawiau Cyllid Myfyrwyr Lloegr ar LMA:

<http://www.practitioners.slc.co.uk/policy/>

Canllawiau Cyllid Myfyrwyr Cymru ar LMA:

<http://www.studentfinancewales.co.uk/practitioners/policy-information/guidance-chapters.aspx#WaAgNXn2ZA2>

Canllawiau Cymdeithas Fformatau Hygyrch y DU ar greu dogfennau clir ac mewn print bras:

<https://www.ukaaf.org/large-print/>

Cwestiynau Cyffredin Myfyrwyr Rhyngwladol ag Anabledau UKCISA ar gyfer Swyddogion Rhyngwladol:

<https://institutions.ukcisa.org.uk/Info-for-universities-colleges--schools/Resources/Resources-for-staff/Students-with-disabilities-good-practice/International-Students-with-Disabilities-FAQs-for-International-Officers/>

**Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol er
Addysg Uwch**

Second Floor
Abbey Wharf
57-75 Kings Road
Reading
RG1 3AB

Ffôn: 0118 959 9813
ebost: enquiries@oiahe.org.uk
www.oiahe.org.uk

